# CAPEL HANESYDDOL BETHEL YN NOLWYDDELAN

Cafodd Capel Bethel ei gynnig fel ateb posibl, i hwyluso anghenion cynyddol y gymuned, fel sydd wedi'i nodi yn Arolwg Cymunedol Dolwyddelan. Mae Grŵp Gweithredu Bethel yn elusen gyfansoddiadol, sy'n gweithio tuag at sicrhau'r Capel at y diben hwn a gwarchod treftadaeth Cymru ar yr un pryd. Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac wedi ein sefydlu ers 18 mis.

Y llynedd, bu inni gynnal archwiliad gweledol mewnol ac arolwg dimensiynol, i werthuso defnydd posibl o'r ardal. Fel mae'r lluniau yn dangos, mae'r tu mewn yn anhygoel. Hoffem ddiolch i Eurwyn am ei garedigrwydd wrth ganiatáu'r Grŵp i gael mynediad at y Capel, roeddem ni'n ei werthfawrogi'n fawr.

Yn anffodus, mae ychydig o dystiolaeth o bydredd a fandaliaeth, sy'n anodd ei anwybyddu o ystyried safle amlwg yr ased hanesyddol hwn. Mae un o'n haelodau wedi gwirfoddoli'n ddiweddar i helpu i wneud yr adeilad yn ddiogel a diogelu'r tu mewn rhag tywydd mawr.

Rydym wedi derbyn ymateb cadarnhaol i'n hachos gan wahanol sefydliadau, gan gynnwys llythyr gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn mynegi eu cefnogaeth i'r cynlluniau ar gyfer gofod cymunedol a thai. Mae sefydliad adeiladau crefyddol hanesyddol Cymru hefyd wedi bod draw yn ymweld ac rydym yn ymgysylltu â grwpiau lleol i sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r anghenion, fel sydd wedi'i nodi gan yr Arolwg Cymunedol.

Felly, beth ydy'r camau nesaf? Byddwn yn gwahodd llythyrau o gefnogaeth gan grwpiau cymunedol, busnesau a masnachwyr lleol, rydym yn adeiladu gwefan syml (www.bethel-action-group.jimdosite.com) a byddwn yn parhau i weithio ar ddiogelu a chynnal a chadw trysor hanesyddol Dolwyddelan.

Cysylltwch am fwy o wybodaeth . . .


Richard Griffin, Cadeirydd
Richard_griffin@btinternet.com  M. 07736059925

Helena Wroblewska, Ysgrifennydd
Helena_w@btinternet.com  M. 07828 761114


Helena Wroblewska